


Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Darlun o Ofal Sylfaenol yng Nghymru



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol  
â Deddfau Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm yr astudiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys  
Nigel Blewitt, Matthew Brushett, Stephen Lisle, Elaine Matthews a  
Emily Owen o dan gyfarwyddyd Dave Thomas.

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018


Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys

Cyflwyniad	4
Beth yw gofal sylfaenol?	5
Beth yw'r gost?	7
Beth mae cleifion yn ei feddwl?	10
Beth yw problemau'r gweithlu?	15
Beth yw'r cynllun ar gyfer gwella gofal sylfaenol?	22




# Cyflwyniad

Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn chwarae rhan allweddol yn y system iechyd a gofal ehangach yng Nghymru. Ond mae gwasanaethau o dan bwysau cynyddol oherwydd y cynnydd mewn galw a'r cyfyngiadau o ran capasiti, a chydabyddir bod yn rhaid gwneud newidiadau i sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn gynaliadwy ac yn gallu chwarae'r rhan allweddol sy'n ofynnol ohonynt yn y GIG yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o waith yr ydym yn ei pharatoi ar wasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae'n dod â nifer o ffynonellau data at ei gilydd i roi cipolwg ar wasanaethau gofal sylfaenol. Nid gwerthuso cryfderau a gwendidau gofal sylfaenol yn fanwl yw'r bwriad. Yn hytrach, mae'n amlinellu gwybodaeth allweddol ynglŷn â sut y mae'r gwasanaethau ar hyn o bryd yn cael eu trefnu ac yn amlygu materion allweddol y byddwn yn eu harchwilio ymhellach fel rhan o'n gwaith archwilio manylach yn y byrddau iechyd.

Yn ystod 2018 bydd archwilwyr yn edrych ar y cynnydd y mae byrddau iechyd yng Nghymru wedi ei wneud wrth weithredu'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol. Caiff adroddiad ei lunio ar gyfer pob bwrdd iechyd, a bydd crynodeb cenedlaethol o'n canfyddiadau yn dilyn yn gynnar yn 2019.

Rydym eisoes wedi cwblhau adolygiad ar wahân a manwl ar Wasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau (GPOOH), ac wedi adrodd ein canfyddiadau i'r byrddau iechyd. Bydd crynodeb o'r canfyddiadau hyn yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018.



# Beth yw gofal sylfaenol?

Mae gofal sylfaenol yn cynnwys amrediad eang o wasanaethau a ddarperir fel arfer yn y gymuned leol gan ymarferwyr cyffredinol (meddygon teulu), fferyllwyr, deintyddion, optometryddion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

## Diffiniad o ofal sylfaenol

- Y diffiniad yn y [cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol i Gymru](#) yw:


'Mae a wnelo gofal sylfaenol â'r gwasanaethau hynny sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf, ddydd neu nos, ar gyfer mwy na 90% o gysylltiad pobl â'r GIG yng Nghymru.'

'Mae ymarfer cyffredinol yn un o elfennau craidd gofal sylfaenol: ond nid dyma'r unig elfen – mae gofal sylfaenol yn cwmpasu llawer mwy o wasanaethau iechyd, gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg.'

'Hefyd, yn bwysig, mae'n ymwneud â chydgyssylltu mynediad i bobl at yr amrywiaeth eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a lles.'


- Mae llawer o feddygon teulu, fferyllwyr, deintyddion ac optometryddion yn gweithio fel contractwyr annibynnol. [Ewch i'r adran gweithlu o'r adroddiad hwn](#) i ddysgu mwy am eu contractau â'r GIG yng Nghymru.
- Er mai ymdrin â gofal sylfaenol yn ei ystyr eang yw nod yr adroddiad hwn, mae'r rhan fwyaf o'r data sydd ar gael yn gyhoeddus yng Nghymru yn canolbwyntio ar ymarfer cyffredinol, ac mae hyn o ganlyniad wedi llywio pwyslais rhai o adrannau'r adroddiad hwn.

## Pam mae gofal sylfaenol yn bwysig?




### Pwynt cyswllt cyntaf

Gofal sylfaenol yw'r man galw cyntaf i'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd.




### Gwariant ar ofal sylfaenol

Yn 2016-17, gwariodd y GIG yng Nghymru £1.39 biliwn ar ofal sylfaenol, sydd oddeutu un rhan o bump o gyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru.



### Atal ac ymyrryd yn gynnar

Mae gofal sylfaenol hefyd yn bwysig gan ei fod yn canolbwyntio ar hyrwyddo lles, ymyrraeth gynnar ac atal pobl rhag mynd yn waeth.



### Cydgysylltu gofal


Mae gan ofal sylfaenol swyddogaeth bwysig yn cydgysylltu gwahanol fathau o ofal. Gofal sylfaenol yw'r porth i nifer fawr o wasanaethau eraill.

# Beth yw'r gost?

Edrychom ar gyfrifon y GIG yng Nghymru i wneud dadansoddiad lefel uchel o gost gofal sylfaenol. Rydym yn bwriadu edrych ar y mater hwn yn fanylach yng ngwaith archwilio'r dyfodol.

## Cyfanswm cost gofal sylfaenol

Yn 2016-17, dengys cyfrifon y GIG yng Nghymru fod y byrddau iechyd wedi gwario £1.39 biliwn ar wasanaethau gofal sylfaenol. Mae'r siart isod yn dangos rhagor o fanylion am sut y gwariwyd yr arian hwnnw.



Ffynhonnell: Crynodeb o gyfrifon GIG Cymru

Sylwer: [Ewch i'r adran gweithlu o'r adroddiad hwn](#) i gael esboniad o'r categorïau gwariant yn y siart. 'Gofal Iechyd Sylfaenol arall' yw categori torfol yn y cyfrifon a ddefnyddir i gofnodi gwariant ar nifer o eitemau a gwasanaethau gofal sylfaenol nad ydynt yn dod o dan y categorïau eraill a restrwyd yn y siart uchod.

## Tueddiad o ran gwariant byrddau iechyd

- Rhwng 2010-2011 a 2016-17, bu cynnydd o 4% yng ngwariant byrddau iechyd o £1.34 biliwn i £1.39 biliwn.
- Fodd bynnag, ar ôl ystyried effaith chwyddiant, mae hyn gyfystyr â gostyngiad yn nhermau real o 5%.

## Gwariant Gofal Sylfaenol fel canran o gyfanswm gwariant byrddau iechyd

- Rhwng 2010-11 a 2016-17, cynyddodd cyfanswm gwariant y byrddau iechyd yng Nghymru (Costau Gweithredu Net) o £5.39 biliwn i £6.32 biliwn.
- Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, lleihawyd gwariant cofnoededig ar ofal sylfaenol fel canran o gyfanswm gwariant y byrddau iechyd yng Nghymru (Cost Gweithredu Net) o 25% i 22%.
- Mae hyn yn awgrymu nad yw'r newid mewn adnoddau tuag at ofal sylfaenol sydd wedi bod wrth graidd llawer o bolisi'r GIG yn y blynyddoedd diwethaf yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, mae'r llun yn gymhleth gan y ffaith nad yw gwariant gan fyrddau iechyd ar ofal sylfaenol yn cael ei gategoreiddio'n gyson ac felly mae'n debyg nad yw'r ffigur a gofnodir yn y cyfrifon yn cynrychioli cyfanswm gwariant gofal sylfaenol.

## Cyllid gan Lywodraeth Cymru

- Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian i fyrddau iechyd lleol i'w wario ar wasanaethau gofal sylfaenol. Yn 2016-17, roedd y dyraniad hwnnw yn oddeutu £887 miliwn.
- Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, y Gronfa Gofal Sylfaenol Genedlaethol, yn ogystal â chyllid ar gyfer ystod o wasanaethau optometreg a rhai agweddau ar bresgripsiynau a rhoi meddyginiaethau.
- Nid yw'r dyraniad yn cynnwys y cyllid y mae fferyllfeydd cymunedol yn ei dderbyn yn anuniongyrchol fel 'elw a gedwir ar bryniannau'. Hwn yw'r elw y mae fferyllfeydd yn ei gadw pan fo'r GIG yn eu had-dalu am brynu meddyginiaethau.
- Mae'r dyraniad ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi'i glustnodi, sy'n golygu y dylai byrddau iechyd wario eu dyraniad cyfan ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol. Yn 2016-17, gwariodd y byrddau iechyd 2.4% yn fwy na'u dyraniad ar gyfer y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r dyraniad cyfan ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol wedi'i glustnodi, ac yn 2016-17, gwariodd y byrddau iechyd 6.4% yn llai na'u dyraniad ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.



## Adeiladau gofal sylfaenol

- Ym mis Hydref 2017, dangosodd cyfeiriadur GIG Cymru fod 596 o adeiladau meddygfeydd (gan gynnwys practisau ategol), 428 o bractisau deintyddol, 448 o optegwyr preifat a 717 o fferyllfeydd. Mae rhai o'r adeiladau hyn yn rhan o ystad y GIG, tra bo lleill yn eiddo preifat.
- Daeth ein gwaith cwmpasu o hyd i rai problemau yng Nghymru gyda diffyg gofod mewn adeiladau gofal sylfaenol cyfredol, megis practisau meddygon teulu a chanolfannau gofal iechyd. Gallai hyn ei gwneud yn fwy anodd cyflwyno ffyrdd newydd o weithio, fel sefydlu clinigau newydd ar gyfer ffisiotherapyddion, fferyllwyr cymunedol ac ati.
- Nid oes data ar gael am gyflwr yr ystâd gofal sylfaenol, felly nid yw costau cynnal a chadw a ohiriwyd yn hysbys.
- Yn 2017, [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £68 miliwn](#) i adeiladu 11 o ganolfannau iechyd a meddygfeydd newydd, yn ogystal â gwella wyth o ganolfannau iechyd presennol, i'w cyflawni erbyn 2021.


# Beth mae cleifion yn ei feddwl?

Mae arolygon ymhlith cleifion yn dangos bod y farn am wasanaethau meddygon teulu yn gadarnhaol. Ond nid oedd data da ar gael ar gyfer gwasanaethau eraill.

## Profiad cleifion: Ymarfer Meddygol

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, rhoddodd oddeutu 10,000 o bobl eu barn am apwyntiadau â meddyg teulu yn 2016-17:

- 90% yn fodlon ar ofal meddygon teulu.
- Teimlai 96% eu bod wedi eu trin gyda pharch ac urddas yn eu hapwyntiad meddyg teulu.
- Teimlai 86% eu bod wedi cael yr wybodaeth sydd ei hangen yn eu hapwyntiad.
- Teimlai 79% fod y meddyg teulu yn gwybod yr holl wybodaeth berthnasol i'r claf.



## Profiad Cleifion: Deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth gymunedol

Mae nifer fawr o'r gwasanaethau hyn yn cynnal arolygon lleol ar brofiad cleifion ond nid oeddem yn gallu dod o hyd i ddarlun o ganlyniadau wedi eu casglu ar lefel Cymru gyfan.

## Mynediad hawdd a chyflym

- Mae mynediad gwell at wasanaethau meddyg teulu wedi bod yn nod ers blynyddoedd lawer. Mae'r [Rhaglen Lywodraethu gyfredol](#) yn parhau i geisio gwella'r mynediad i feddygfeydd ymarferwyr cyffredinol, sy'n golygu ei bod yn haws cael apwyntiad.
- Er na cheir targed ffurfiol, mae [Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gleifion sydd ag anghenion brys gael eu gweld ym meddygfeydd ymarferwyr cyffredinol ar y diwrnod hwnnw](#).
- Dangosodd Arolwg Cyffredinol Cymru fod 62% o gleifion meddygfeydd yn gallu cael apwyntiad yn hawdd neu'n hawdd iawn ar amser cyfleus (roedd 38% yn ei chael hi'n anodd neu'n anodd iawn).
- Mae [Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#) ynghyd ag [Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru](#) wedi tynnu sylw at bryderon cleifion am systemau apwyntiadau meddygon teulu...

Mae'n amhosib trefnu apwyntiad. Mae'n rhwystredig nad wyf yn gallu gweld yr un meddyg, yn enwedig gyda chyflwr meddygol parhaus.

Does dim digon o amser yn ystod apwyntiad. Dwi'n teimlo fy mod yn cael fy ngwthio allan drwy'r drws bron, heb gyfle i drafod pob problem.

Apwyntiadau– gallaf gael apwyntiad ar y diwrnod, ond mae'n anodd iawn trefnu apwyntiad rheolaidd.

- Mae [Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg](#) yn amlygu problem allweddol, sef bod y mynediad at wasanaeth deintyddol GIG yn dameidiog. [Datgelodd adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2017](#) fod mynediad i ofal deintyddol y GIG wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar ond hefyd fod ardaloedd yng Nghymru lle mae'n dal i fod yn anodd defnyddio'r gwasanaeth ac mae wedi 'llithro'n ôl' mewn rhai ardaloedd eraill.
- Mae'r [Cynllun Gofal Llygaid â Blaenoriaeth](#) yn disgrifio'r cynnydd wrth wella mynediad at wasanaethau gofal llygaid yng Nghymru. Mae camau gweithredu wedi cynnwys llwybrau gofal newydd i helpu cleifion i gael gafael ar wasanaethau gofal llygaid yn agosach at y cartref, codi ymwybyddiaeth a chyfeirio, yn ogystal â hyfforddi staff gofal sylfaenol.
- Mae gwaith i edrych ar y diffiniad o 'fynediad da' yn parhau yng Nghymru. Y cynllun cenedlaethol yw datblygu tîm gofal sylfaenol aml-ddisgyblaethol. Felly bydd yn bwysig i gleifion allu cael mynediad at yr aelod priodol o'r tîm hwnnw. Ac efallai na fyddai y diffiniad newydd o 'fynediad' yn golygu mynediad at apwyntiadau – efallai ei fod yn golygu cyngor drwy e-bost neu ar y ffôn, neu ymweliad â'r cartref.

## Amseroedd agor y practisau meddygon teulu

Mae'r [data isod](#) yn dangos tueddiad graddol o gynyddu amseroedd agor a'r apwyntiadau sydd ar gael yn ystod oriau agor arferol (8am i 6:30pm), er bod apwyntiadau ar benwythnosau yn dal i fod yn brin. Nid yw apwyntiadau gyda'r nos (ar ôl 6:30pm) ac ar benwythnosau yn rhan o'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ond pan fo angen penodol, gall byrddau iechyd eu hariannu yn rhan o Wasanaeth Ychwanegol Oriau Agor Estynedig dan Gyfarwyddyd.


	2011	2017
<b>Oriau craidd:</b> % y practisau sydd ar agor trwy'r dydd, pum diwrnod yr wythnos (08:00 i 18:30)	31%	51%
<b>Cau am hanner diwrnod:</b> % y practisau sy'n cau am hanner diwrnod un waith yr wythnos.	19%	3%
<b>Apwyntiadau cynnar:</b> % y practisau sy'n cynnig apwyntiadau cyn 08:30, pum diwrnod yr wythnos.	10%	14%
<b>Apwyntiadau hwyr:</b> % y practisau sy'n cynnig apwyntiadau rhwng 17:00 a 18:30, pum diwrnod yr wythnos.	63%	84%
<b>Apwyntiadau hwyrach:</b> % y practisau sy'n cynnig apwyntiadau ar ôl 18:30, un diwrnod yr wythnos o leiaf.	11%	8%
<b>Apwyntiadau ar benwythnosau:</b> Nifer y practisau sy'n cynnig apwyntiadau ar ddydd Sadwrn.	Heb ei gofnofi	1 practis

Ffynhonnell: [GP Appointment Times, 2011](#), [GP Opening Hours in Wales](#), [GP Access 2017](#).

## Gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau


Pan fo'r meddygfeydd yn cau, mae'n rhaid i gleifion sydd ag anghenion brys gysylltu â gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau. Mae gwasanaethau y tu allan i oriau effeithiol yn rhan bwysig o allu'r GIG i ymateb i alw am ofal brys. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru cyhoeddi adroddiad manwl ar wasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau yn ddiweddarach yn 2018.

## Gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau




## Hefyd penwythnosau a gwyliau banc


## Sut mae gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau yn gweithio?



**0.6 miliwn**  
o bobl yn cysylltu  
â GPOOH bob  
blwyddyn




Pobl yn ffonio'r feddygfa,  
neu  
GPOOH yn uniongyrchol,  
neu  
bellach gellir ffonio 111  
mewn rhai ardaloedd.




**Neges ar dâp**  
Neges o groeso  
yn cyfeirio'r claf i  
wasanaethau amgen.  
Aros ar y llinell i  
siarad â gwasanaeth  
GPOOH.



**Ateb galwadau**  
Person hyfforddedig  
yn ateb yr alwad.  
Gofyn beth yw'r  
problem.



**Galw'n ôl**  
Meddyg, nyrs neu  
barafeddyg yn  
ffonio'r claf.



**Cyngor neu Apwyntiad**  
Hunanofal yw'r cyngor a roddir  
i rai cleifion, mae cleifion eraill  
yn cael ymweliad yn eu cartrefi  
neu'n mynd i ganolfan gofal  
sylfaenol i'w gweld.

# Beth yw problemau'r gweithlu?

Mae gofal sylfaenol yn cynnwys amrywiaeth eang o wahanol staff. Mae meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr cymunedol ac optometryddion yn dueddol o weithio fel contractwyr annibynnol<sup>1</sup>, yn hytrach na chael eu cyflogi'n uniongyrchol gan fyrdau iechyd. Ceir isod grynodedb o gontractau gofal sylfaenol yng Nghymru:

Math o wasanaeth	Enw'r contract	Math o wasanaeth a gyflawnir	Am ddim yn y man cyswllt?
Ymarfer cyffredinol	Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS)	<b>Gwasanaethau craidd</b> – rheoli cleifion sy'n sâl ond disgwylir iddynt wella, rheolaeth gyffredinol o gleifion sy'n derfynol wael, a rheoli cleifion â chlefydau cronig. <b>Gwasanaethau ychwanegol</b> – megis sgrinio serfigol, gwasanaethau atal cenhedlu, brechiadau, monitro iechyd plant, gwasanaethau mamolaeth a mân weithgareddau llawfeddygol. <b>Gwasanaethau Uwch</b> – mae'r gwasanaethau uwch hyn yn amrywio yn ôl bwrdd iechyd, ac yn ôl blwyddyn, yn ddibynnol ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.	Ydy

1 Yn hysbys hefyd fel optegwyr offthalmig. Mae offthalmolegwyr yn wahanol i optometryddion/ optegwyr offthalmig gan eu bod yn feddygon wedi eu hyfforddi â sgiliau arbenigol i ddiagnosisio a thrin clefydau'r llygaid. Maent fel arfer yn gweithio mewn ysbytai.

Math o wasanaeth	Enw'r contract	Math o wasanaeth a gyflawnir	Am ddim yn y man cyswllt?
Deintyddol <sup>2</sup>	Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS)	Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn gweithio dan y contract hwn ac mae'n rhaid iddynt ddarparu ystod lawn o wasanaethau gorfodol. Mae hyn yn cynnwys: archwiliadau, digennu a llathru, rhoi farnais fflworid, selio tyllau, radiograffyddion, triniaethau endodontig, llenwadau, adferiadau, echdyniadau, coronau, dannedd gosod, argaenau, mewnosodiadau, atgyfeiriadau i wasanaethau uwch, yn ogystal â phresgripsiynau gwrthfotigau.	Dim ond i gleifion penodol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- &lt;18 oed;</li> <li>- 18 oed ac mewn addysg lawn-amser;</li> <li>- &gt;60 oed;</li> <li>- Cleifion sy'n feichiog neu sydd wedi cael baban yn ystod y 12 mis blaenorol;</li> <li>- Chleifion ar incwm isel neu sy'n cael budd-daliadau penodol;</li> <li>- Gwiriadau iechyd am ddim i bobl &gt;60 oed a &lt;25 oed. Mae'r cyfraddau arferol yn berthnasol ar gyfer unrhyw driniaeth ddilynol</li> </ul>
	Gwasanaethau Deintyddol Personol (PDS)	Mae lleiafrif o ddeintyddion yn gweithio dan y contract hwn. Mae'r ddau gontract yn debyg er mai nod y GDS yw rhoi mwy o hyblygrwydd i ddeintyddion weithio mewn partneriaethau. Os yw darparwr yn unig yn darparu gwasanaethau arbenigol megis gwaith orthodeintyddol, mae'n rhaid i hyn fod dan gytundeb PDS.	

<sup>2</sup> [gov.wales/docs/statistics/2017/170831-nhs-dental-services-2016-17-en.pdf](http://gov.wales/docs/statistics/2017/170831-nhs-dental-services-2016-17-en.pdf)




Math o wasanaeth	Enw'r contract	Math o wasanaeth a gyflawnir	Am ddim yn y man cyswllt?
Optometreg <sup>3</sup>	Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS)	<p>Mae optegwyr offthalmig yn gwneud <b>profion golwg am ddim</b> ar ran y byrddau iechyd ar gyfer cleifion sy'n bodloni meini prawf penodol.</p> <p><b>Gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru</b> yw gwasanaeth Cymru gyfan sy'n anelu at ddarganfod retinopathi diabetig sy'n bygwth y golwg mewn cyfnod cynnar cyn i'r claf ddechrau colli ei olwg.</p>	<p>Dim ond i gleifion penodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- &lt;16 oed;</li> <li>- &lt;19 oed ac mewn addysg amser llawn;</li> <li>- &gt;60 oed; a</li> <li>- chleifion â diabetes</li> <li>- &gt;40 oed ag aelod teulu â diagnosis oglawcoma.</li> <li>- cleifion sy'n gymwys am rai budd-daliadau.</li> </ul>
		<p><b>Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru</b> yw'r cynllun sy'n cynnig archwiliadau llygaid estynedig i grwpiau penodol o bobl sydd mewn perygl o glefydau llygaid penodol ac y gallai colli eu golwg fod yn arbennig o niweidiol iddynt, megis pobl sydd eisoes yn ddall mewn un llygad.</p>	<p>Dim ond ar gyfer cleifion â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- golwg mewn un llygad yn unig;</li> <li>- amhariad ar y clyw/ yn hollol fyddar;</li> <li>- retinitis pigmentosa;</li> <li>- hanes teuluol o glefyd llygaid; a</li> <li>- phroblemau llygaid sydd angen sylw brys.</li> </ul>
		<p><b>Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru</b> y nod yw helpu pobl â nam ar y golwg i barhau yn annibynnol drwy ddarparu cymhorthion golwg gwan megis chwyddwydrau, a thrwy ddarparu addysg briodol, atgyfeirio, a hyfforddiant adsefydlu.</p>	<p>I gleifion â phroblemau gweld na ellir eu cywiro gan sbectol, lensys cyffwrdd neu driniaeth feddygol.</p>

3 [gov.wales/docs/statistics/2017/170628-sensory-health-eye-care-hearing-statistics-2016-17-en.pdf](http://gov.wales/docs/statistics/2017/170628-sensory-health-eye-care-hearing-statistics-2016-17-en.pdf)

Math o wasanaeth	Enw'r contract	Math o wasanaeth a gyflawnir	Am ddim yn y man cyswllt?
Fferyllfa gymunedol <sup>4</sup>	Gwasanaethau fferyllol ar fframwaith contract	<p><b>Gwasanaethau craidd</b> - gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol nad ydynt yn agored i drefniadau lleol. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn, ailgyflenwi presgripsiwn, cael gwared ar feddyginiaethau diangen, hyrwyddo ffordd o fyw iach a chymorth i ofalu am eich hunan.</p> <p><b>Gwasanaethau ychwanegol</b> - mae'n cynnwys Adolygiadau o Ddefnydd Meddyginiaethau (gwella gwybodaeth cleifion am feddyginiaeth a sut mae'n cael ei defnyddio), Rhyddhau Adolygiadau Meddyginiaethau (mae hyn yn darparu cymorth i gleifion sydd wedi eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiweddar gan sicrhau y gweithredir y newidiadau a wnaed i'w meddyginiaethau yn y gymuned).</p> <p><b>Gwasanaethau uwch</b> – gwasanaethau ychwanegol, er enghraifft, atal cenhedlu brys, brechiad flw tymhorol, rhoi'r gorau i ysmegu, meddyginiaeth frys, gofal lliniarol.</p>	Presgripsiynau am ddim i bob claf sydd wedi ei gofrestru â meddyg teulu yng Nghymru.

4 [gov.wales/docs/statistics/2017/171101-community-pharmacy-services-2016-17-en.pdf](http://gov.wales/docs/statistics/2017/171101-community-pharmacy-services-2016-17-en.pdf)



Ffynhonnell: GPs in Wales, 2016 Statistical First Release, NHS Dental Statistics in Wales 2016-17, Sensory Eye: health care and hearing statistics, 2016-17

Sylwer: 2,944 o Feddygon Teulu (gan gynnwys 2,009 o ymarferwyr Meddygon Teulu<sup>5</sup>, 684 o locwms MT<sup>6</sup>, 232 o gofrestrddion<sup>7</sup> and 19 o ymarferwyr wrth gefn<sup>8</sup>), 7,341 o staff eraill a gyflogir yn uniongyrchol gan bractisiau cyffredinol (gan gynnwys nyrsiau, ymarferwyr nyrsio, bydwragedd, gweinyddwyr, rheolwyr practisiau, ffysiotherapyddion, fferyllwyr, therapyddion galwedigaethol and gwaedyddion), 1,475 o ddeintyddion (gan gynnwys perfformwyr a pherfformwyr sy'n darparu<sup>9</sup>), 819 o ymarferwyr offthalmig (Sensory Health Eyecare statistics 2016-17) (sy'n cynnwys optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig)

- 5 Mae ymarferydd yn cynnwys darparwyr gwasanaethau meddyg teulu a meddygon teulu eraill yn unig (ac eithrio Cofrestryddion, meddygon teulu wrth gefn a locwm).
- 6 Meddyg teulu locwm yw meddyg teulu sy'n dirprwyo dros dro mewn ymarfer cyffredinol, fel arfer i wneud gwaith ymarferydd cyffredinol sy'n absennol. Ni ddylai swydd ddirprwyo o'r fath bara am fwy na 6 mis.
- 7 Cofrestrydd meddyg teulu yw ymarferydd sydd wedi ei gyflogi at ddibenion hyfforddi mewn ymarfer cyffredinol ac y telir grant hyfforddi ar ei gyfer.
- 8 Meddyg teulu wrth gefn yw ymarferydd sy'n darparu sesiynau gwasanaeth mewn practis cyffredinol. Mae'n cyflwyno ei sesiynau fel cynorthwydd a gyflogir gan y practis ac ni chaniateir iddo weithio mwy na 4 sesiwn bob wythnos.
- 9 Perfformiwr – deintydd a enwir ar gontract a fydd neu a allai fod yn cyflawni'r gwaith a gytunwyd yn y contract.

Mae [Cynllun Llywodraeth Cymru Gweithlu Gofal Sylfaenol i Gymru](#) yn pwysleisio'r dull tîm amlddisgyblaethol mewn gofal sylfaenol. Er hynny, mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu bod y mwyafrif o'r data ar weithlu gofal sylfaenol yn canolbwyntio ar feddygon teulu.

## Gweithlu'r meddygon teulu

- Yn 2016, roedd 6.5 meddyg teulu i bob 10,000 o boblogaeth Cymru. Y rhif cyfatebol yn Lloegr oedd 6.4 i bob 10,000. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer yr Alban o 2015 yn dangos bod 8 meddyg teulu i bob 10,000 o bobl.
- Rhwng 2006 a 2016, cynyddodd nifer y meddygon teulu<sup>10</sup> yng Nghymru 7% i 2,009.
- Er y cynnydd yn niferoedd y meddygon teulu, nid yw'n glir a yw hyn wedi arwain at wella capasiti. Mae hyn oherwydd nad ydym yn siŵr a yw'r meddygon yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wella'r data hynny.
- Mae nifer yr ymarferwyr cyffredinol sy'n fenywod wedi cynyddu 55% ers 2006. Yn 2016 menywod oedd 52% o'r holl weithlu meddygon teulu.
- Mae nifer y meddygon teulu dan 44 oed wedi cynyddu 15% rhwng 2010 a 2016. Cafwyd gostyngiad o 8% yn nifer y meddygon teulu rhwng 45 a 54 oed. Y newid mwyaf a welwyd oedd yn y meddygon teulu dros 65 oed, sydd wedi cynyddu 83% ers 2006.
- Mae Hyfforddi Gweithio Byw yn ymgyrch genedlaethol a lansiwyd yn 2016 i hyrwyddo Cymru fel lle deniadol i feddygon teulu a meddygon eraill weithio. [Ewch i'r wefan Hyfforddi Gweithio Byw](#) i gael rhagor o fanylion.

## Hyfforddi meddygon teulu

- Ar ôl yr ysgol feddygaeth, mae meddygon teulu potensial yn mynd drwy raglen arbenigol ar gyfer meddygon teulu. Mae cystadleuaeth ar gyfer lleoedd hyfforddi wedi gostwng yng Nghymru. Yn 2012, gwnaed 1.5 o geisiadau am bob lle hyfforddi. Yn 2016, gwnaed 1.2 cais am bob lle.
- Mae Cymru wedi cael trafferth i lenwi'r lleoedd hyfforddi i feddygon teulu. Yn 2016, llenwyd 75% o'r lleoedd. Ond yn 2017, llenwyd 91% o'r lleoedd. Mae cymhelliannau ariannol newydd i ddenu ceisiadau yn amlwg wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau llenwi yng Ngheredigion, Gogledd-orllewin Cymru, Sir Benfro a Gogledd-ddwyrain Cymru.

<sup>10</sup> Ac eithrio cofrestryddion, ymarferwyr wrth gefn a locwm.

## Morâl a bodlonrwydd swydd

- Yn ôl arolygon BMA<sup>11</sup> a RCGP<sup>12</sup> mae morâl meddygon teulu yng Nghymru yn isel. Soniodd ymatebwyr i'r arolwg am feichiau gwaith cynyddol, cydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith, biwrocratiaeth a phwysau ariannol, yn arbennig mewn partneriaethau.
- Mae 95% o feddygon teulu Cymru yn teimlo bod morâl wedi gostwng yn y 5 mlynedd diwethaf (93% yn yr Alban, 94% yng Ngogledd Iwerddon)(RCGP).
- Mae 61% o feddygon teulu Cymru yn dweud nad oes ganddynt gydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith, ac mae 58% yn dweud bod pethau wedi gwaethgu yn y flwyddyn ddiwethaf. (BMA).
- Mae'r rhan fwyaf o feddygon teulu (82%) yn pryderu am gynaliadwyedd eu practis, gan ddyfynnu pwysau gwaith a thrafferthion recriwtio fel y ddau brif reswm am eu pryderon. (BMA).

## Cyflog a chostau meddygon teulu

- Ar gyfer y rhan fwyaf o feddygon teulu yng Nghymru (sef y rheini a gyflogir yn rhan o'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol), cynyddodd yr incwm cyfartalog cyn treth yn ystod y 2000'au ond ers hynny mae wedi gostwng ychydig. Cododd yr incwm hwn o £65,007 yn 2002-03 i £102,194 yn 2005-06, ond ers hynny mae wedi gostwng i £93,400 yn 2015-16 (DU £99,500).
- Er mwyn bod yn bartner, mae'n rhaid i lawer o feddygon teulu brynu i mewn i bartneriaeth. Gall y gost hon atal rhai meddygon teulu rhag bod yn bartneriaid, ac mae nifer y partneriaethau meddygon teulu wedi gostwng o 496 yn 2006 i 441 yn 2016 yng Nghymru.
- Mae problem 'y person olaf sy'n sefyll' yn rhwystr arall i brynu i mewn i bartneriaeth. Mae'r broblem hon yn golygu y gall un meddyg teulu mewn partneriaeth fod yn atebol yn ariannol am y practis a'i eiddo os bydd pob partner arall yn ymddeol.
- Mae costau indemniad uchel i feddygon teulu yn rhwystr arall. Mae indemniad yn darparu ar gyfer costau hawliadau ac ymchwiliadau i esgeulustra meddygol. Mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi cynlluniau<sup>13</sup> i fynd i'r afael a'r broblem hon, a rhoddwyd rhan o'r cynnydd uwch yn y contract GMS i weithredu fel cymorth tymor byr wrth aros am ateb mwy hirdymor.
- Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddwyd contract diwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2018-19 yng Nghymru, a oedd yn cynnwys codiad cyflog interim o 1% i feddygon teulu, cynnydd o 1.4% yn y cyllid ar gyfer treuliau a chyllid i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau indemniad.

11 Arolwg y BMA o Ymarfer Cyffredinol, 2016

12 Arolwg RCGP o Ymarferwyr Cyffredinol yn y Cenhedloedd Datganoledig, Ebrill 2016

13 Cyfweliad Prif Weinidog Cymru â'r BMU, Hydref 2016

# Beth yw'r cynllun ar gyfer gwella gofal sylfaenol?

Fel rhannau eraill o'r system iechyd, mae angen cynllunio gofal sylfaenol yn ofalus i helpu i lunio'r ffordd y darperir gwasanaethau. Fodd bynnag, ni ellir cynllunio ar gyfer gofal sylfaenol ar ei ben ei hun ac mae'n rhaid iddo fod, yn hytrach, yn rhan o ymagwedd system gynllunio gyfan o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cynlluniau blaenorol ar gyfer gofal sylfaenol

- Mae gan GIG Cymru gynlluniau ers blyneddau lawer sy'n rhoi pwyslais ar ofal sylfaenol. Nod y cynlluniau yw gosod cydbwysedd newydd yn system gofal Cymru drwy symud adnoddau i ofal sylfaenol a chymunedol.




[Dyfodol Gofal Sylfaenol](#) (2001), [A Question of Balance](#) (2002), [The Wanless Review](#) (2003), [Cynllun Oes](#) (2005), [Setting the Direction](#) (2010), [Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018](#) (2014), [Ffyniant i bawb](#) (2017)

- Yn 2001, bwriad [Dyfodol Gofal Sylfaenol](#) oedd gwrthdroi'r 'tan-ddatblygiad ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru'. Roedd y weledigaeth yn cynnwys gweithio mewn timau, mwy o integreiddio a mwy o bwyslais ar gymorth ataliol.
- Yn 2017, mae [strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru](#) yn trafod yr angen i gyflymu'r broses o symud gofal yn agosach at gartrefi'r cleifion.

## Y cynllun cyfredol ar gyfer gofal sylfaenol

- Mae'r cynllun cyfredol ar gyfer gofal sylfaenol yn ceisio datblygu 'model cymdeithasol' sy'n hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol, yn hytrach na chadw at absenoldeb salwch yn unig. Mae pum maes blaenoriaeth yn y cynllun:



### Cynllunio gofal yn lleol

Mae'r cynllun cenedlaethol yn dweud:


- byrddau iechyd sy'n gyfrifol am nodi anghenion eu poblogaeth;
- dylid gwneud hyn ar lefel gymunedol;
- mae'r cynllun yn trafod rhagor o ymreolaeth leol ar gyfer arweinyddiaeth, cydweithredu ac arloesedd; ac
- mae clystyrau'n rhan allweddol o gyflawni hyn.



### Gwella mynediad ac ansawdd

Mae'r cynllun cenedlaethol yn dweud bod mynediad at wasanaeth gofal sylfaenol o ansawdd uchel yn ymwneud â:


- gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi a chymell pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac iechyd a lles eu teulu;
- diagnosis, archwiliad, triniaeth a pharhad gofal mor agos â phosibl at gartrefi pobl;
- gweithwyr proffesiynol yn cydweithio fel tîm cydgysylltiedig o amgylch yr unigolyn;
- gwelliant parhaus; a
- bod yn agored a thryloyw.



### Mynediad teg

Mae'r cynllun cenedlaethol yn dweud:


- mae a wnelo mynediad teg i ofal sylfaenol â dull rhagweithiol, cymesur ac unigol o wella iechyd a lles corfforol a meddyliol unigolion, teuluoedd a chymunedau.



### Gweithlu lleol medrus

Mae'r cynllun cenedlaethol yn dweud:

- yn ei hanfod, mae a wnelo gofal sylfaenol â chydberthnasau yr ymddiriedir ynddynt rhwng pobl a gweithwyr proffesiynol. Mae angen i ni gynllunio a chreu gweithlu sydd â'r niferoedd cywir a'r cymysgedd cywir o sgiliau i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o bobl yn agosach at eu cartrefi mewn ffyrdd hyblyg ac mewn cyfleusterau hyblyg.



### Arweinyddiaeth gadarn

Mae'r cynllun cenedlaethol yn dweud:

- mae angen i ni atgyfnerthu a datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel i gyflawni'r cynllun hwn er mwyn darparu mwy o ofal yn agosach at gartrefi pobl drwy wasanaethau gofal sylfaenol.

## Cynllunio i ddiwallu'r galw am ofal sylfaenol

- Mae'r cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol yn dweud bod cyni yn sbarduno ton o alwadau ar ofal sylfaenol, a hynny ar raddfa ddigynsail. Dywed y cynllun hefyd fod gofal sylfaenol yn wynebu galwadau cynyddol a mwy cymhleth o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, a chynnydd mewn cyflyrau hirdymor.
- Os yw byrddau iechyd yn mynd i fodloni'r galw am, a gwella mynediad at, ofal sylfaenol, mae angen iddynt gael dealltwriaeth dda o'r galw hwn. Fodd bynnag, ceir rhai problemau sylfaenol â'r data.
- Nid yw union nifer y cysylltiadau y mae cleifion yn eu cael â meddygfeydd yn hysbys ar lefel genedlaethol gan fod y data hwn yn cael ei gadw ar systemau cyfrifiadurol y meddygfeydd unigol a cheir anawsterau wrth geisio coladu'r data hwn. Mae'r amcangyfrifon yn amrywio rhwng 16 miliwn<sup>14</sup> a 23 miliwn<sup>15</sup> y flwyddyn.
- Ceir data gwell yn rhannau eraill o'r system gofal iechyd sylfaenol, yn bennaf gan fod y gwasanaethau hyn yn cael eu talu yn unol â'u gweithgarwch:
  - Yn 2016-17, dosbarthodd y 716 o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru 74.7 miliwn o eitemau presgripsiwn i gleifion.
  - Yn 2016-17, cynhaliodd optometryddion cymunedol brofion llygaid ar 776,827 o bobl.
  - Yn y ddwy flynedd hyd at 31 Mawrth, aeth fwy nag 1.7 miliwn o bobl i ddeintyddion i gael triniaeth y GIG.

<sup>14</sup> [Unscheduled Care Board, Ten High Impact Steps to Transform Unscheduled Care \(USC\), Mehefin 2011](#)

<sup>15</sup> [BMA Cymru Wales cyflwyniad i'r Gynhadledd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol, Tachwedd 2017](#)



## Newid y ffordd yr ydym yn cael gafael ar wasanaethau

Mae'r GIG yng Nghymru yn ceisio newid y ffordd mae'r cyhoedd yn cael gafael ar wasanaethau gofal sylfaenol. Yn draddodiadol, meddygon teulu fu'r pwynt cyswllt cyntaf i bobl ag anghenion gofal iechyd, ac maent wedi gweithredu yn geidwaid y porth ar gyfer gwasanaethau eraill. Yn y dyfodol, y nod yw y bydd cleifion yn gallu cael gafael ar ystod ehangach o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan ddibynnu ar eu hanghenion. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod amser meddygon teulu yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, yng nghyd-destun galw cynyddol am wasanaethau gofal sylfaenol.

## Arloesedd a model newydd o ofal sylfaenol

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn 2015-16 i annog arloesedd a gwelliant.

### **£41 miliwn oedd cyfanswm y gronfa yn 2016-17 gan gynnwys £10 miliwn ar gyfer clystyrau a £3.8 miliwn ar gyfer prosiectau braenaru ac arwain y ffordd.**

- Grwpiau o feddygfeydd cyfagos a sefydliadau partner (megis y gwasanaeth ambiwlans, cynghorau a'r trydydd sector) yw clystyrau, sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau lleol o rhwng 30,000 a 50,000 o bobl. Mae gan glystyrau swyddogaeth allweddol wrth gefnogi asesiadau lleol o anghenion gofal, dyrannu adnoddau priodol a rhagweld y galw posibl yn y dyfodol am ofal sylfaenol.
- Prosiectau braenaru ac arwain y ffordd yw cyfres o brosiectau gofal sylfaenol, a noddir gan Lywodraeth Cymru. Eu nod yw arbrofi elfennau o'r cynllun gofal sylfaenol. Mae'r dull hwn wedi creu rhai ffyrdd newydd o weithio sydd wedi eu cyfuno mewn Model Trawsnewid Gofal Sylfaenol a Chymunedol.
- Mae elfennau allweddol o'r model yn cynnwys: cynaliadwyedd mewn ymarfer cyffredinol, prosesau brysbennu a rennir, timau amlddisgyblaethol sy'n gweithio ar draws practisau, gwaith integredig rhwng meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, mynediad gwell a mwy o wybodaeth gytbwys i'r cyhoedd.
- Mae'r ymagwedd gyfredol tuag at gynllunio gofal iechyd yn un 'o'r brig i lawr' (hynny yw, blaenoriaethau cyffredin wedi'u pennu yn y cynllun cenedlaethol) ac 'o'r gwaelod i fyny' (hynny yw, cynllunio ac arloesedd wedi'i arwain gan glystyrau a meddygfeydd lleol). Golyga hyn y ceir amrywiaeth o gynlluniau, ar amrywiaeth o lefelau, ac y mae angen iddynt wneud synnwyr ac ategu ei gilydd.


### Yn y gorffennol

Mae'r claf yn mynd at y meddyg teulu fel y porth galw cyntaf. Y meddyg teulu yw'r porthgeidwad i wasanaethau eraill.

### Yn y dyfodol

Bydd llawer o wasanaethau eraill yn darparu'r porthladd cyntaf ar gyfer cleifion, gan ryddhau meddygon teulu i weld y cleifion mwyaf sâl. Bydd meddygon teulu yn parhau i fod y porthladd cyntaf ar gyfer y rhan fwyaf o achosion ofal brys.

## GWASANAETHAU ERAILL



Bydd y gwasanaethau hyn yn gweithio fel tîm ac mae cleifion yn debygol o gael mynediad iddynt trwy wasanaeth brysennu/asesu a rennir.

**Bydd angen i ddisgwyliadau'r cyhoedd newid:** Yn y dyfodol bydd yn llai tebygol i'r claf weld ei feddyg teulu, yn hytrach bydd yn fwy tebygol iddo weld arbenigwr arall. Un dull sy'n cael ei arbrofi ar hyn o bryd yw cyflwyno proses frysennu ganolog i sicrhau bod y cleifion yn mynd at y clinigwr mwyaf priodol. Ond adroddodd Arolygaeth Iechyd Cymru y gall cleifion deimlo'n anhapus gyda champau o'r fath, gan y gallen nhw deimlo eu bod wedi colli eu dewis.



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)